

12.13 Cais i wrthwynebu cofrestru Atwrneiaeth Arhosol (LPA)

At ddefnydd y swyddfa'n unig

Dyddiad derbyn

Rhif yr achos

Dyddiad cyhoeddi

Enw rhoddwr yr Atwrneiaeth Arhosol (dyma'r unigolyn a wnaeth yr LPA)

SÊL

Darllenwch hwn i ddechrau

- Chewch chi ddim gwrthwynebu gan ddefnyddio'r ffurflen hon oni bai eich bod yn atwrnai arfaethedig neu'n unigolyn a enwyd a dderbyniodd LPA001 hysbysiad o fwriad i wneud cais am gofrestru atwrneiaeth arhosol.
- Ni chodir unrhyw ffi am ffeilio'r ffurflen hon gyda'r llys.
- Rhaid gwneud cais i wrthwynebu cyn pen tair wythnos i'r diwrnod y derbynioch chi'r hysbysiad LPA001.
- Onid ydych yn un o'r bobl a dderbyniodd yr hysbysiad LPA001 ond eich bod am wrthwynebu, gallwch wneud hynny o hyd ond bydd angen ichi ffeilio ffurflen gais COP1 a thalu ffi benodol. Mae angen ichi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus o'ch cais. Gweler nodyn 1 ar ddiwedd y ffurflen hon am wybodaeth ar hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.
- Dylid cyflwyno gwrthwynebiad mewn perthynas â chofrestru LPA i'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (yn hytrach nag i'r llys) yn yr amgylchiadau canlynol:
 - os chi yw'r rhoddwr, drwy ddefnyddio'r ffurflen LPA006 gwrthwynebiad gan y rhoddwr i gofrestru'r atwrneiaeth arhosol;
 - neu
 - os ydych chi'n gwrthwynebu ar sail ffeithiau penodol, drwy ddefnyddio ffurflen LPA007
 - Gwrthwynebiad i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus ynglŷn â chofrestru arfaethedig atwrneiaeth arhosol ar seiliau ffeithiol.
- Efallai y bydd rhaid i chi dalu am unrhyw gostau a gyfyd yn ystod yr achos. Os bydd y llys o'r farn eich bod wedi ymddwyn yn afresymol, gall orchymyn ichi dalu costau partïon eraill.
- Defnyddiwch ddalen bapur ar wahân i barhau os oes angen mwy o le arnoch i ateb cwestiwn. Ysgrifennwch eich enw chi, enw a dyddiad geni'r sawl y mae'r cais yn ymwneud ag ef, a rhif y cwestiwn rydych yn ei ateb ar bob dalen ar wahân.
- Os oes angen help arnoch chi i lenwi'r ffurflen hon, ewch i'r wefan, www.justice.gov.uk neu www.direct.gov.uk, i gael rhagor o arweiniad neu wybodaeth, neu cysylltwch â Gwasanaeth Ymholiadau'r Llys ar 0300 456 4600 neu anfon e-bost at courtofprotectionenquiries@hmcts.gsi.gov.uk.
- Ni chaiff staff y Llys Gwarchod roi cyngor cyfreithiol. Os oes angen cyngor cyfreithiol arnoch chi, cysylltwch â chyfreithiwr

Adran 1 – Eich manylion chi (y ceisydd)

1.1 Eich manylion Mr. Mrs. Miss Ms. Arall _____

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

1.2 Cyfeiriad
(gan gynnwys
y cod post)

Rhif ffôn

Dydd	
Gyda'r nos	
Symudol	

Cyfeiriad e-bost

1.3 A oes cyfreithiwr yn eich cynrychioli chi? Oes Nac oes

Os Oes, rhowch fanylion y cyfreithiwr.

Enw

Cyfeiriad
(gan gynnwys y
cod post)

Rhif ffôn

	Rhif ffacs	
--	------------	--

Rhif DX

Cyfeiriad e-bost

1.4 I ba gyfeiriad y dylid anfon pob dogfen swyddogol?

Eich cyfeiriad chi

Cyfeiriad y cyfreithiwr

Cyfeiriad arall (rhowch fanylion os gwelwch yn dda)

1.5 Eich disgrifiad

Atwrnai

Unigolyn arall sydd â hawl i gael ei hysbysu ynglŷn â'r cais i gofrestru'r Atwrneiaeth Arhosol

Adran 2 - Gwrthwynebiad i gofrestru Atwrneiaeth Arhosol

2.1 Enw llawn y rhoddwr

Mr. Mrs. Miss Ms. Arall _____

Enw cyntaf

Enw(au) canol

Cyfenw

2.2 Enw llawn yr atwrnai/atwrneiod arfaethedig

Mr. Mrs. Ms. Miss Arall _____

Enw cyntaf

Cyfenw

Mr. Mrs. Ms. Miss Arall _____

Enw cyntaf

Cyfenw

2.3 Dyddiad llofnodi'r LPA gan y rhoddwr

D	D	M	M	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---

2.4 Dyddiad y cawsoch eich hysbysu o'r cais i gofrestru'r LPA

D	D	M	M	B	B	B	B
---	---	---	---	---	---	---	---

2.5 Dim ond am y rhesymau a nodir mewn rheoliadau o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 y cewch wrthwynebu cofrestru LPA yn y llys.

Nodwch eich rhesymau dros wrthwynebu'r cofrestriad arfaethedig:

- Nid yw'r pŵer yn honnir a gaiff ei greu gan yr offeryn* yn ddilys fel LPA.
(e.e. nid oedd gan y rhoddwr alluedd i wneud LPA).
- Nid yw'r pŵer a grëwyd gan yr offeryn yn bodoli bellach
(e.e. diddymodd y rhoddwr ef ar adeg pan oedd ganddo/ganddi alluedd i wneud hynny)
- Defnyddiwyd twyll neu bwysau gormodol i berswadio'r rhoddwr i wneud y pŵer.
- Mae'r atwrnai'n bwriadu ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n groes i'w awdurdod neu mewn modd na fyddai er lles gorau'r rhoddwr.

**Mae'r offeryn yn golygu'r LPA a wnaed gan y rhoddwr.*

2.6 Rhaid i unrhyw dystiolaeth i gefnogi'ch cais gael ei ffeilio gyda'r ffurflen gais hon. Tystiolaeth wedi'i hatodi
Os ydych chi'n atodi unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig, defnyddiwch y ffurflen datganiad tyst COP24 os gwelwch yn dda.

2.7 Rhaid eich bod wedi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus o'ch bwriad i wneud cais i'r llys i wrthwynebu cofrestru'r LPA. **(Gweler nodyn 1)** Rwy'n cadarnhau fy mod wedi hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Adran 3 – Mynychu gwrandawiadau llys

3.1 Os bydd y llys angen ichi fynychu gwrandawriad a fydd angen unrhyw gymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch chi? **(Gweler nodyn 2)** Bydd Na fydd

Os Bydd, nodwch beth yw eich anghenion. Os bydd angen, efallai y bydd staff y llys yn cysylltu â chi am eich gofynion.

Rhan 4 – Datganiad gwirionedd

Mae'r datganiad gwirionedd i'w lofnodi gennych chi, eich cyfreithiwr neu eich cyfaill cyfreitha.

*(Rwy'n credu)(Mae'r ceisydd yn credu) bod y ffeithiau a nodir yn y cais hwn yn wir.

Llofnod

*Ceisydd (cyfaill cyfreitha'r ceisydd)(cyfreithiwr y ceisydd)

Enw

Dyddiad

**Enw'r
ffyrm**

**Safle neu
swydd**

* Dilewch yr opsiynau mewn cromfachau
nad ydynt yn berthnasol.

Yn awr darllenwch nodyn 3 ynghylch beth i'w wneud nesaf

Nodiadau canllaw

Nodyn 1

Hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Dylech hysbysu'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn ddi-oed, gan ddefnyddio ffurflen LPA008, ynghylch eich cais i wrthwynebu. Pan fydd wedi cael gwybod, bydd Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn atal y cofrestrriad nes y bydd y llys yn darparu cyfarwyddiadau pellach. Oni hysbysir y Gwarcheidwad Cyhoeddus mae perygl y caiff yr LPA ei chofrestru.

Mae modd cael copïau o ffurflenni Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus drwy ffonio 0300 456 0300, drwy eu lawrlwytho yn www.justice.gov.uk/forms/opg neu drwy ysgrifennu at:

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
BLWCH POST 16185
Birmingham B2 2WH

Nodyn 2

Mynychu gwrandawiadau llys

Os byddwch angen cymorth neu gyfleusterau arbennig ar gyfer anabledd neu nam, nodwch eich gofynion yn llawn os gwelwch yn dda. Mae'n bwysig eich bod yn hysbysu'r llys o'ch anghenion, er mwyn osgoi achosi unrhyw oedi.

Bydd staff y llys angen gwybod, er enghraifft, a ydych eisiau i ddogfennau gael eu darparu mewn fformat gwahanol, megis Braille neu brint bras. Byddant hefyd angen gwybod am unrhyw ofynion penodol allai fod gennych os cynhelir gwrandawriad, megis mynediad i gadair olwyn, system dolen clyw, neu ddehonglydd iaith arwyddion.

Nodyn 3

Beth i'w wneud nesaf

Mae'r llys angen dau gopi (h.y. y gwreiddiol ac un copi) o bob ffurflen a dogfen a ffeilir gennych.

Dychwelwch y ffurflenni gwreiddiol wedi'u llenwi, y dogfennau a'r copïau at:

Court of Protection
PO Box 70185
First Avenue House
42-49 High Holborn
Llundain WC1A 9JA

DX 160013
Kingsway 7

Nodyn 4

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y llys yn eich hysbysu pan fydd eich ffurflen gais wedi cael ei chyhoeddi a bydd yn dychwelyd copi o'r ffurflen gais wedi'i selio, atoch. Bydd angen i chi gyflwyno copi i'r rhoddwr a phob un o atwrneiod yr LPA.